**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2015**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Y Cynghorydd Eryl Williams – Cysylltiad Personol – Eitemau 7 ac 8 ar y Rhaglen.<br>Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill – Cysylltiad Personol - Eitem 11 ar y Rhaglen. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYMERADWYO ACHOS BUSNES TERFYNOL AILDDATBLYGU YSGOL GLAN CLWYD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy.* |
| **6** | TREFNIADAU LLYWODRAETHU GwE | ***PENDERFYNWYD*** *bod y trefniadau llywodraethu diwygiedig ar gyfer GwE fel y nodwyd yn yr adroddiad ac atodiadau yn cael eu cymeradwyo.* |
| **7** | POLISI RECORDIO GALWADAU FFÔN NEWIDIADAU TRETH Y CYNGOR A CHYFRADDAU ANNOMESTIG CENEDLAETHOL, DISGOWNTIAU, EITHRIADAU A | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo 'Polisi Recordio Galwadau Ffôn, Newidiadau Treth y Cyngor a Chyfraddau Annomestig Cenedlaethol, Disgowntiau, Eithriadau a Gostyngiadau' fel y manylir yn Atodiad A gyda'r adroddiad.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | GOSTYNGIADAU | |
| **8** | POLISI RECORDIO GALWADAU FFÔN CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR A BUDD-DAL TAI | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo 'Polisi Recordio Galwadau Ffôn, Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a Budd-dal Tai fel y manylir yn Atodiad A gyda'r adroddiad.* |
| **9** | POLISI TALIADAU TAI DEWISOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r fframwaith 'Polisi Taliadau Tai Dewisol' diwygiedig fel y manylir yn Atodiad A gyda'r adroddiad.* |
| **10** | STRATEGAETH TYMOR HIR AR GYFER YR YSTÂD AMAETHYDDOL | ***PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -***<br><br>*(a) cymeradwyo strategaeth yr Ystâd Amaethyddol yn y dyfodol fel y manylir yn Atodiad 1 gyda'r adroddiad yn amodol ar eglurhad ym mharagraff 4.2 o'r strategaeth y bydd y gwarediad yn cael ei ystyried i fod yn briodol lle canfyddir ei fod y dewis mwyaf manteisiol yn economaidd i'r Cyngor yn dilyn gwerthusiad defnyddiau posibl eraill o'r tir gan y Cyngor, ac ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol ar adeg y gwarediad arfaethedig;*<br><br>*(b) Pwysleisio'r angen i waredu unrhyw fferm gael ei ystyried ar y telerau mwyaf manteisiol yn economaidd i'r Cyngor gan ystyried yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud ar adeg y gwarediad arfaethedig, ac*<br><br>*(c) yn ofynnol i swyddogion symud ymlaen gyda thrafodaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.10 o'r strategaeth ar gyfer darparu profiad ymarferol i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio ac adrodd yn ôl i'r Cabinet o fewn y chwe mis* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *nesaf.* |
| **11** | GWAREDU TIR AC ADEILADAU YN FFORDD LLYS NANT, PRESTATYN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn datgan y tir a'r adeiladau fel y nodir yn Adran 2.0 o'r adroddiad yn weddill i anghenion gyda'r bwriad o gael ei waredu ar y farchnad agored ar sail Datganiad o Ddiddordeb.* |
| **12** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **13** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |